Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau

## Canllawiau Trwyddedu Amgylcheddol – Llosgi Gwastraff

Mawrth 2016

© Hawlfraint y Goron 2016 WG28205 Digidol ISBN 978 1 4734 6062 1

OGL

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut mae Pennod IV y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol (IED)[1] yn berthnasol i Gymru. Cafodd yr IED ei throsi i ddeddfwriaeth Cymru trwy gyfrwng Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010[2] ("yr EPR"). Mae darpariaethau perthnasol yr EPR ar i ba raddau mae Pennod IV o'r IED yn gosod rhwymedigaethau perthnasol ar drwyddedu peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff i'w gweld yn Atodlen 13A.

1.2 Mae'r Canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddogfennau canllaw sy'n berthnasol i drwyddedu amgylcheddol mewn perthynas â Chymru. Mae dogfennau eraill yn y gyfres honno o ganllawiau'n cynnwys:

- Canllawiau Craidd ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, y gellir eu gweld yn:

  https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachmentdata/file/211852/pb13897-ep-core-guidance-130220.pdf

- Canllawiau EPR y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol ar weithfeydd Rhan A, y gellir eu gweld yn:

  https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachmentdata/file/221044/pb13898-epr-guidance-part-a-130222.pdf

- y canllawiau trwyddedu amgylcheddol ar gyfer awdurdodau lleol, y gellir eu gweld yn:

  https://www.gov.uk/government/collections/defra-guidance-on-local-authority-pollution-control-lapc-regime

1.3 Nid yw'r canllawiau hyn yn manylu gofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 a allai fod yn berthnasol i weithredu peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff. Dylai gweithredwyr ddilyn canllawiau trwyddedu amgylcheddol perthnasol eraill, gan gynnwys y dogfennau a restrir uchod, a dylent sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddio perthnasol yn cael eu bodloni. Anogir gweithredwyr i gael cyngor gan reoleiddiwr cyn ymgeisio hefyd er mwyn hwyluso proses ddidrafferth o benderfynu ar geisiadau trwyddedau amgylcheddol.

---

1 Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor 24 Tachwedd 2010 ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio). Gweler http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=celex:32010L0075

2 O.S. 2010/675 (fel y'i diwygiwyd)

# 2. Beth yw peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff?

## Y diffiniad o beiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff

2.1 Yn rhinwedd Atodlen 13A o'r EPR, mae Pennod IV o'r IED yn berthnasol mewn perthynas â 'peiriant llosgi gwastraff' a 'peiriant cyd-losgi gwastraff'.

2.2 Mae rheoliad 2 o'r EPR yn diffinio 'peiriant llosgi gwastraff' fel a ganlyn:

*'"waste incineration plant" means a stationary or mobile technical unit and equipment dedicated to the thermal treatment of waste, with or without recovery of the combustion heat generated, through the incineration by oxidation of waste as well as other thermal treatment processes, such as pyrolysis, gasification or plasma process, if the substances resulting from the treatment are subsequently incinerated'*

2.3 Mae rheoliad 2 o'r EPR yn diffinio 'peiriant cyd-losgi gwastraff' fel a ganlyn:

*'"waste co-incineration plant" means a stationary or mobile technical unit whose main purpose is the generation of energy or production of material products and which uses waste as a regular or additional fuel or in which waste is thermally treated for the purpose of disposal through the incineration by oxidation of waste as well as other thermal treatment processes, such as pyrolysis, gasification or plasma process, if the substances resulting from the treatment are subsequently incinerated'*

Mae'r diffiniadau hyn yn adlewyrchu diffiniadau IED.

2.4 Mae 'Peiriant Llosgi Gwastraff Bach' ('SWIP') yn cael ei ddiffinio ar wahân gan reoliad 2 fel peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff gyda chapasiti o lai na neu'n gyfwerth â 10 tunnell y dydd ar gyfer gwastraff peryglus neu lai na neu'n gyfwerth â 3 tunnell yr awr ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus. Effaith hyn yw gwneud SWIP yn is-gategori o beiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff o dan yr EPR. Mae cyfarpar bach a ddefnyddir i losgi olew gwastraff ('Llosgydd Olew Gwastraff Bach' - 'SWOB') yn SWIP yn rheoliad 2. Os yw ei gapasiti'n uwch na'r trothwy perthnasol, peiriant llosgi gwastraff neu beiriant cyd-losgi gwastraff ydyw.

2.5 Yn ein barn ni, mae'r diffiniadau'n awgrymu bod rhaid i'r peiriant fod yn gymharol soffistigedig yn dechnegol er mwyn dod o dan Bennod IV o'r IED. Fel arall ni fydd yn beiriant llosgi gwastraff na'n beiriant cyd-losgi gwastraff. Er enghraifft, efallai na fydd dyfais nad yw'n gwneud mwy na darparu cyfyngiad ffisegol i goelcerth agored yn ddigon soffistigedig yn dechnegol. Yn ein barn ni, bydd cyfarpar bach a ddefnyddir i losgi olew gwastraff (Llosgydd Olew Gwastraff Bach - 'SWOB') yn ddigon soffistigedig i gael ei ystyried yn Beiriant Llosgi Gwastraff Bach (SWIP)

neu, os yw'r capasiti'n ddigon mawr, yn beiriant llosgi gwastraff neu'n beiriant cyd-losgi gwastraff.

2.6 Mae Erthygl 42(1) o'r IED yn nodi bod darpariaethau Pennod IV yn berthnasol i beiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff '...*which incinerate or co-incinerate solid or liquid waste.'*

2.7 Os nad yw'r sylwedd sydd i'w losgi'n wastraff, ni all y peiriant a ddefnyddir i'w losgi neu ei drin yn thermol fod yn beiriant llosgi gwastraff neu'n beiriant cyd-losgi gwastraff. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae gwastraff wedi'i adfer i'r graddau y mae wedi peidio â bod yn wastraff cyn ei losgi mewn peiriant llosgi gwastraff neu beiriant cyd-losgi gwastraff.

2.8 Mae gwastraff, o fewn cyd-destun darpariaethau Pennod IV, yn cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at bwynt 1 o Erthygl 3 Cyfarwyddeb 2008/98/EC ('y Gyfarwyddeb Gwastraff') fel *'…any substance or object which the holder discards or intends or is required to discard.'* Dylid nodi bod Pennod IV o'r IED yn cyflwyno darpariaethau penodol ar gyfer peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff sy'n llosgi neu'n cyd-losgi gwastraff peryglus (fel y'i diffinnir ym mhwynt 2 o Erthygl 3 Cyfarwyddeb 2008/98/EC).

2.9 Defnyddir y cyfeiriad at Erthygl 3 hefyd i ddiffinio gwastraff a ddarperir yn yr EPR at ddibenion Atodlen 13A.

2.10 Yn ein barn ni, os yw llosgi ychydig o wastraff mewn cyfarpar yn gysylltiedig â phroses nad yw'n llosgi gwastraff neu'n cyd-losgi gwastraff nid yw'n dod o dan gwmpas darpariaethau Atodlen 13A i'r EPR. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Toddi metel sgrap mewn ffwrneisi arc drydan; a
- Glanhau paent o jigiau.

## Cwmpas ffisegol peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff

2.11 Mae Erthygl 42(1) hefyd yn diffinio cwmpas ffisegol peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cyd-losgi gwastraff fel *'…all incineration lines or co-incineration lines, waste reception, storage, on site pretreatment facilities, waste-, fuel-, and air-supply systems, boilers, facilities for the treatment of waste gases, on-site facilities for treatment or storage of residues and waste water, stacks, devices and systems for controlling incineration or co-incineration operations, recording and monitoring incineration or co-incineration conditions.'*

2.12 Mae Erthygl 42(1) hefyd yn diffinio cwmpas ffisegol peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff pyrolysis, nwyeiddio a phlasma fel *'...both the thermal treatment process and the subsequent incineration process.'*

# 3. Sut mae darpariaethau Atodlen 13A i'r EPR yn berthnasol i wahanol fathau o beiriannau llosgi gwastraff a pheiriannau cydlosgi gwastraff?

3.1 Mae Atodlen 13A i'r EPR yn berthnasol i beiriant llosgi gwastraff, peiriant cydlosgi gwastraff a SWIP sy'n dod o dan Bennod IV o'r IED (ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gweithredu fel gweithgareddau domestig mewn cysylltiad ag annedd breifat).

3.2 Yn rhinwedd Atodlen 13A i'r EPR, y tu allan i'r darpariaethau penodol a ddisgrifir yn yr adran hon, bydd peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff yn llosgi gwastraff solet neu hylif yn destun darpariaethau Pennod IV o'r IED. Bydd y trwyddedau amgylcheddol ar gyfer peiriant o'r fath yn cynnwys amodau sy'n adlewyrchu gofynion Pennod IV. Mae hyn yn cynnwys y darpariaethau technegol ychwanegol, gan gynnwys y gwerthoedd terfyn uchaf ar gyfer allyriadau, a bennir yn Atodiad VI o'r IED. Dylid nodi bod Pennod IV o'r IED yn cymhwyso darpariaethau penodol ar gyfer peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n llosgi neu'n cydlosgi gwastraff peryglus (fel y'i diffinnir ym mhwynt 2 o Erthygl 3 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC).

## Peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sydd wedi'u heithrio ar sail y math o wastraff a losgir

3.3 O fewn Pennod IV o'r IED, mae Erthygl 42(2) yn nodi **nad** yw peiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff sy'n llosgi mathau penodol o wastraff yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Pennod IV. Y mathau o wastraff yw:

- Gwastraff llysieuol o amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- Gwastraff llysieuol o'r diwydiant prosesu bwyd, os yw'r gwres a gynhyrchwyd yn cael ei adfer;
- Gwastraff llysieuol ffibrog o gynhyrchu mwydion crai a chynhyrchu papur o fwydion coed, os yw'n cael ei gyd-losgi yn y lle cynhyrchu a'r gwres a gynhyrchwyd yn cael ei adfer;
- Gwastraff corc;
- Gwastraff pren ac eithrio gwastraff pren a allai gynnwys cyfansoddion organig halogenaidd neu fetelau trwm o ganlyniad i drin gyda deunyddiau cadw pren neu gaenu ac sy'n cynnwys, yn benodol, wastraff pren sy'n deillio o wastraff adeiladu a dymchwel.

Ni ddylid ystyried bod pren yn cynnwys papur a cherdyn. Efallai nad yw rhai prosesau gweithgynhyrchu byrddau ffeibr yn defnyddio cemegion sy'n cynnwys halogenau neu fetelau trwm. Fodd bynnag, os yw unrhyw wastraff pren a ddefnyddiwyd i weithgynhyrchu'r byrddau ffeibr wedi'i halogi cyn cychwyn y broses weithgynhyrchu, gall y cynnyrch bwrdd ffeibr terfynol fod yn halogedig a bydd yr eithriad yn anghymwys o bosibl o ganlyniad;

- Gwastraff ymbelydrol;
- Carcasau anifeiliaid fel y'u rheoleiddir gan Reoliad (CE) Rhif 1774/2002;
- Gwastraff sy'n deillio o chwilio am olew a nwy alltraeth ac elwa arnynt a'u llosgi ar fwrdd y gweithfeydd.

3.4 Mae'r rhestr uchod yn cael ei hadlewyrchu, yn rhannol, yn y disgrifiad o'r gweithgaredd a nodir yn Rhan B(a) o Adran 5.1 o Atodlen 1 i'r EPR. Mae Adran 4 o'r canllawiau hyn yn trafod sut y gall peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff gyfateb i ddisgrifiadau o weithgareddau a nodir yn Rhan II o Atodlen 1 i'r EPR; mae Adran 5 o'r canllawiau hyn yn egluro'r goblygiadau.

3.5 Dylid nodi ar y pwynt hwn fod y gweithgaredd a ddisgrifir yn Rhan A(1)(c) o adran 5.1 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r EPR (*'The incineration, other than incidentally in the course of burning landfill gas or solid or liquid waste, of any gaseous compound containing halogens'*) y tu allan i gwmpas darpariaethau Pennod IV o'r IED gan ei fod yn ymwneud â gwastraff nwyol. Ni fydd Atodlen 13A felly'n berthnasol i beiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn. Mae hyn yn golygu na fydd trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithgaredd o'r fath yn cynnwys amodau sy'n adlewyrchu gofynion Pennod IV ac Atodiad VI o'r IED.

## Eithriadau eraill

3.6 Nid yw peiriannau arbrofol a ddefnyddir ar gyfer ymchwil, datblygu a phrofi er mwyn gwella'r broses losgi ac sy'n trin llai na 50 tunnell o wastraff y flwyddyn yn ddarostyngedig i Bennod IV o'r IED. Yn ymarferol, mae cyfyngu ar drwybwn i lai na 50 tunnell o wastraff y flwyddyn i losgwyr yn golygu y bydd yr eithriad ond yn berthnasol i rigiau profi.


3.7 Ni fydd rhai peiriannau pyrolosis/nwyeiddio sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o beiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff hefyd yn ddarostyngedig i ofynion Pennod IV o'r IED, drwy rinwedd eithriad a nodir yn Erthygl 42(1). Mae hyn yn darparu bod peiriant o'r fath wedi'i eithrio o gwmpas Pennod IV *'...if the*

*gases resulting from the thermal treatment of waste are purified to such an extent that they are no longer a waste prior to their subsequent incineration and they can cause emissions no higher than those resulting from the burning of natural gas.'*

Mae Ffigur 1 ar y dudalen nesaf yn darparu esboniad ymarferol o sut mae darpariaethau Pennod IV yn berthnasol mewn perthynas â phrosesau pyrolysis, nwyeiddio a phlasma.

**Ffigur 1**

**Penderfynu a yw prosesau pyrolosis, nwyeiddio a phlasma yn gyfystyr â pheiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff sy'n ddarostyngedig i Bennod IV o'r IED**



# 4. Sut mae Atodlenni 1 a 3 i'r EPR yn berthnasol i wahanol fathau o beiriannau llosgi gwastraff a pheiriannu cydlosgi gwastraff?

4.1 Mewn rhai achosion ni fydd Peiriant Llosgi Gwastraff Bach ('SWIP') yn bodloni meini prawf gweithgaredd a ddisgrifir yn Atodlen 1 neu 3; bydd yn SWIP (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 o'r EPR). Mae Rheoliad 8 o'r EPR yn diffinio SWIP fel math o 'gyfleuster a reoleiddir'. Mae angen trwydded amgylcheddol ar 'cyfleusterau a reoleiddir'.

4.2 Mewn achosion eraill bydd peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff yn bodloni meini prawf disgrifiad gweithgaredd Rhan A(1), Rhan A(2) neu Ran B a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 (os felly, mae yna 'waith' yn bodoli) neu ddisgrifiad gweithgaredd yn Rhan 1 o Atodlen 3 (os felly, mae 'gwaith gwastraff esempt' yn bodoli). Yn rheoliad 2 o'r EPR mae 'gwaith' wedi'i ddisgrifio fel 'cyfleuster a reoleiddir' felly mae angen trwydded amgylcheddol. Mae 'gwaith gwastraff esempt' wedi'i ddiffinio yn rheoliad 5 o'r EPR. Mae'n fath o 'gyfleuster esempt' felly nid oes angen trwydded amgylcheddol. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn yr adrannau canlynol.

## Atodlen 1 - Gweithfeydd

### (a) Peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n weithgareddau Rhan B o dan Ran 2 o Atodlen 1

4.3 Mae yna ddau bosibilrwydd o ran peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n dod o fewn diffiniad SWIP. Bydd SWIP sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Rhan B(a) o Adran 5.1 o Atodlen 1 i'r EPR yn weithgareddau Rhan B(a) Adran 5.1 yn ogystal â bod yn SWIP. Ar y pwynt hwn, dylid nodi nad yw SWIP Rhan B(a) Adran 5.1 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Atodlen 13A gan fod disgrifiad gweithgaredd Rhan B(a) Adran 5.1 yn adlewyrchu, yn rhannol, y mathau o wastraff wedi'u heithrio a nodir yn Erthygl 42(2) o'r IED (gweler paragraff 3.3. o'r canllawiau hyn am drafodaeth ar y rhestr hon).

4.4 Bydd SWIP sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Rhan B o Adran 1.1. o Ran 2 o Atodlen 1 yn weithgaredd Rhan B Adran 1.1 yn ogystal â bod yn SWIP. Er enghraifft, bydd cyfarpar bach a ddefnyddir i losgi olew gwastraff (Llosgydd Olew Gwastraff Bach – 'SWOB') yn weithgaredd Rhan B Adran 1.1 yn ogystal â bod yn SWIP, cyn belled bod cyfradd y mewnbwn thermol yn llai na 3 megawat. Mewn cyferbyniad â SWIP Rhan B(a) Adran 5.1, bydd SWIP Rhan B Adran 1.1 yn ddarostyngedig i ofynion Atodlen 13A.

**(b) Peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n weithgareddau Rhan A(2) o dan Ran 2 o Atodlen 1**

4.5 Bydd y SWIP sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Rhan A(2) o Adran 6.8 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r EPR yn weithgareddau Rhan A(2) Adran 6.8 yn ogystal â bod yn SWIP.

**(c) Peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n weithgareddau Rhan A(1) o dan Ran 2 o Atodlen 1**

4.6 Bydd peiriant sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn Rhan A(1) o adran 5.1 o Ran 2 o Atodlen 1 yn weithgaredd Rhan A(1) yn ogystal â bod yn beiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff.

4.7 Mewn rhai achosion, bydd cydlosgi gwastraff mewn peiriant cydlosgi gwastraff yn perthyn yn well i ddisgrifiad gweithgaredd Rhan A(1) a nodir mewn man arall o Ran 2 o Atodlen 1. Enghreifftiau posibl fyddai cydlosgi gwastraff wrth gynhyrchu clincer sment yn unol â'r disgrifiad o weithgaredd a nodir yn adran 3.1 o Ran A(1) o Ran 2 o Atodlen 1.

4.8 Ar y pwynt hwn, dylid nodi bod y gweithgaredd a ddisgrifir yn Rhan A(1)(c) o adran 5.1 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r EPR (*'The incineration, other than incidentally in the course of burning landfill gas or solid or liquid waste, of any gaseous compound containing halogens'*) y tu allan i gwmpas darpariaethau Pennod IV o'r IED gan ei fod yn ymwneud â gwastraff nwyol. Ni fydd Atodlen 13A felly'n berthnasol i beiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn. Mae hyn yn golygu na fydd trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithgaredd o'r fath yn cynnwys amodau sy'n adlewyrchu gofynion Pennod IV ac Atodiad VI o'r IED.

## Atodlen 3 – Gwaith gwastraff esempt

**(d) Peiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff sy'n waith gwastraff esempt o dan Ran 1 o Atodlen 3**

4.9 Efallai na fydd pob SWIP llai yn bodloni meini prawf unrhyw ddisgrifiad gweithgaredd a nodir o dan Ran 2 o Atodlen 1, ond eu bod yn bodloni telerau disgrifiad gweithgaredd a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 3 ('Gwaredu drwy losgi (D6)' neu 'Llosgi gwastraff fel tanwydd mewn cyfarpar bach (U4)'). Dylid nodi bod y disgrifiad o waith esempt D6 yn cynnwys gofyniad i'r gwastraff fod o fath a ddisgrifir yn Erthygl 42(2)(a)(i) neu (iii) o Bennod IV o'r IED (sy'n fathau gwastraff wedi'u heithrio). Yn yr un modd, mae'r disgrifiad o waith gwastraff esempt yn cynnwys gofyniad i'r gwastraff fod yn un neu fwy o'r mathau a restrir yn y tabl yn is-baragraff (2) o'r disgrifiad, sy'n cyd-fynd â'r mathau gwastraff a ddisgrifir yn Erthygl 42(a)(i) o Bennod IV o'r IED. Mae hyn yn golygu nad yw'r mathau hyn o waith gwastraff esempt yn ddarostyngedig i ofynion Atodlen 13A i'r EPR (gweler paragraff 3.3 o'r canllawiau hyn am restr lawn o'r mathau o wastraff sydd wedi'u heithrio gan Bennod IV o'r IED).

# 5 Sut mae gofynion Atodlenni 7A, 8 a 9 i'r EPR yn berthnasol i wahanol fathau o beiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff?

## Atodlen 7A – Gweithfeydd Rhan A

5.1 Mae gweithfeydd Rhan A yn ddarostyngedig i ofynion Atodlen 7A. Mae Atodlen 7A yn cymhwyso gofynion Pennod II o'r IED (a rhai rhannau o Bennod I), i'r graddau y maent yn gosod rhwymedigaethau sy'n berthnasol i ganiatáu gweithfeydd Rhan A(1) a Rhan A(2). Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y gofyniad i gymhwyso'r Technegau Gorau Sydd ar Gael (BAT) ar gyfer atal, neu os nad yw hynny'n ymarferol, leihau allyriadau i bob cyfrwng. Mae hyn yn golygu y bydd trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithfeydd A(1) ac A(2) yn cynnwys amodau a fydd yn adlewyrchu'r gofynion hyn, ynghyd ag unrhyw amodau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhwymedigaethau a osodir gan atodlenni eraill. Dylid nodi bod y gwerthoedd terfyn ar gyfer allyriadau a nodir yn Atodiad VI o'r IED yn cynrychioli'r terfynau *uchaf*. Gall BAT, fel y'u diffinnir yn nogfennau cyfeirio BAT sy'n benodol i sectorau (BREFs) y Comisiwn Ewropeaidd a dogfennau Casgliadau BAT, neu'r gofynion safon ansawdd amgylcheddol o dan Erthygl 18 o'r IED, nodi bod terfynau allyriadau is na'r rhai a nodir yn Atodiad VI.

## Atodlen 8 – Gweithfeydd Rhan B

5.2 Mae gweithfeydd Rhan B yn ddarostyngedig i ofynion Atodlen 8. Mae SWIP hefyd yn ddarostyngedig i ofynion Atodlen 8. Mae Atodlen 8 yn cymhwyso Technegau Gorau Sydd ar Gael ar gyfer atal, neu os nad yw hynny'n ymarferol, leihau allyriadau i'r aer, ymysg gofynion eraill. Mae hyn yn golygu y bydd trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithfeydd Rhan B a SWIP yn cynnwys amodau a fydd yn adlewyrchu'r gofynion hyn. Dylid nodi bod y gwerthoedd terfyn ar gyfer allyriadau a nodir yn Atodiad VI o'r IED yn cynrychioli'r terfynau uchaf. Gall BAT nodi bod terfynau allyriadau is na'r rhai a nodir yn Atodiad VI.

## Atodlen 9 – Gwaith gwastraff

5.3 Mae ‘gwaith gwastraff’ wedi’i ddiffinio yn rheoliad 2 o’r EPR. Mae gwaith gwastraff yn ddarostyngedig i ofynion Atodlen 9. Mae cwmpas eang y diffiniad o ‘waith gwastraff’ yn golygu bod pob SWIP a pheiriant llosgi gwastraff a pheiriant cydlosgi gwastraff yn ddarostyngedig i Atodlen 9. Mae’n rhaid i reoleiddwyr gyflawni’r rhwymedigaethau a nodir yn Atodlen 9 wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau amgylcheddol.